Gwybodaeth Diogelwch Ffyrdd Cymru

Na 4
Tachwedd 2017

Yn y rhifyn hwn:

Gwthio am ddiogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru
Prosiect EDWARD 2017
Pencampwyr SWFRS
Newidiadau Prawf Gyrru
App i Ddysgu Diogelwch ar y Ffyrdd
Calendr Diogelwch ar y Ffyrdd
#WalkSafe
Ystad Ddiwydiannol Trefforest
Heddlu a Pharafeddygon Cydweithio
Ysgol Gynradd Derwendeg
Cynlluniau Gwynedd
Mis Cerdded i'r Ysgol

Gweler Diogelwch Ffyrdd Cymru ar:
Facebook a Twitter

Lluniwyd gan:
Ann Horton, Rospa
02920 250 600
ahorton@rospa.com

Nid yw Diogelwch Ffyrdd Cymru'n gyfrifol am gynnwys gwefannau allanol.

Ken Skates yn arwain partneriaid mewn ymgyrch i hybu mwy o ddiogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru

Er mai yng Nghymru mae rhai o'r lonydd mwyaf diogel yn y byd, dywedodd Ken Skates, Ysgrifennydd yr Economi heddiw, mai un yn ormod yw pob marwolaeth a phob anaf difrifol.

Heddiw agorodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi ddigwyddiad pwysig Diogelwch ar y Ffyrdd yng Nghymru, lle y bydd trafodaethau rhwng y prif unigolion sy'n gwneud penderfyniadau yn y gwasanaethau brys a'r awdurdodau lleol. Bydd y digwyddiad yn edrych ar sut y bydd technolegau newydd yn y dyfodol yn cael effaith ar ddiogelwch ar ein ffyrdd. Bydd hefyd yn edrych ar sut y gellir defnyddio modelau newid ymddygiad i leihau damweiniau, yn enwedig ymhlith y grwpiau sydd fwyaf agored i risg, sef beicwyr modur a phobl ifanc.

Mae Diogelwch ar y Ffyrdd yng Nghymru yn ddigwyddiad sy'n dod â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ledled Cymru at ei gilydd i adolygu ac i ddiweddaru Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Llywodraeth Cymru. Mae'r fframwaith hwn yn llywio sut y mae partneriaid yng Nghymru yn cydweithio i sicrhau bod ffyrdd Cymru mor ddiogel â phosibl, yn gosod targedau a'r camau sy'n cael eu cymryd i gyflawni'r targedau hynny.

Prosiect EDWARD 2017

#ProjectEDWARD

Mae canlyniadau Prosiect EDWARD 2017 TISPOL bellach ar gael, a'r DU oedd un o'r 15 gwlad adroddodd na fu unrhyw farwolaethau. Yn anffodus, fodd bynnag, bu 43 o farwolaethau yn ystod y diwrnod ar draws 31 o wledydd yn Ewrop, gyda Gwlad Pwyl yn cofnodi 10 marwolaeth a Rwmania a Gwlad Groeg yn cofnodi 6 marwolaeth yr un.

Roedd gweithgareddau ar y Cyfryngau Cymdeithasol yn allweddol ar y diwrnod, ac roedd #Project EDWARD yn rhif 1 o ran tueddiadau yn Iwerddon, rhif 4 yn y DU a rhif 5 yn yr Almaen, Sbaen a gwledydd eraill yn ystod y dydd. Cyfanswm y cyrhaeddiad unigryw rhwng dydd Mawrth 19 a dydd Iau 21 Medi oedd 25 miliwn, ac roedd 8,813 o gofnodion dros y cyfnod 48 awr.

Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o broblemau diogelwch ar y ffyrdd, un o brif nodau Prosiect EDWARD oedd tynnu sylw at werth targedau diogelwch ar y ffyrdd yn genedlaethol ac yn Ewrop.

Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan TISPOL.

GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU – Pencampwyr Her Achub y Byd a'r DU

Cyhoeddwyd mai Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yw pencampwyr her achub y Byd a'r DU. Roedd y pencampwyr byd, sef tîm o chwech, yn wynebu Gwasanaethau Tân ac Achub y DU er mwyn cadw'r teitl cenedlaethol am yr ail flwyddyn yn olynol.

Wythnos yn unig ar ôl y cyhoeddiad eu bod yn Bencampwyr Byd yn Rwmania, mae'r tîm o chwech o Ben-y-bont hefyd wedi parhau yn bencampwyr cenedlaethol ar ôl cystadlu yn Her Achub Genedlaethol y Deyrnas Unedig yn Hull. Nid yw'r llwyddiant deuol hwn ddwy flynedd yn olynol wedi ei gyflawni gan unrhyw dîm erioed o'r blaen.

Yn ychwanegol at lwyddiannau holl dimau Tân ac Achub y DU oedd yn cystadlu, cyhoeddodd Andrew Thomas, sef Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wrth y gynulleidfa o 700 bod Her Achub y Deyrnas Unedig 2018 wedi ei ddyfarnu i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac y bydd yn cael ei gynnal mewn lleoliad yng Nghaerdydd ym mis Medi 2018. Hwn fydd yr ail dro i'r gwasanaeth dderbyn yr anrhydedd i gynnal y digwyddiad pwysig hwn.

Eglurhad am y Newidiadau i'r Prawf Gyrru

Driver & Vehicle Standards Agency

Bydd y prawf gyrru yn newid o ddydd Llun 4 Rhagfyr 2017 i gynnwys dilyn cyfarwyddiadau llywio lloeren ac i brofi symudiadau gwahanol.

Mae'r newidiadau wedi eu cynllunio i sicrhau bod gan yrwyr newydd y sgiliau fydd arnynt eu hangen i'w helpu i yrru'n ddiogel gydol eu hoes.

- Dyma'r pedwar newid i'r prawf gyrru:
- Bydd rhan gyrru'n annibynnol y prawf yn cynyddu i 20 munud
- Dilyn cyfarwyddiadau llywiwr lloeren
- Bydd symudiadau tuag at yn ôl yn newid
- Ateb cwestiwn am ddiogelwch cerbyd tra'ch bod yn gyrru

Gwyliwch fideo sy'n egluro'r newidiadau yn fwy manwl

Ap Rhithwir yn Addysgu Diogelwch ar y Ffyrdd i Blant

University of South Wales Prifysgol De Cymru — Road Safety Trust — Supporting Road Safety

Mae ap rhithwir yn cael ei ddatblygu ym Mhrifysgol De Cymru i helpu addysgu diogelwch ar y ffyrdd i blant ysgolion cynradd. Mae'r academydd o Brifysgol De Cymru, Dr Catherine Purcell (Seicoleg), sy'n arbenigwr ar y cysylltiad rhwng amgyffred a gweithredu ar ochr y ffordd, yn arwain y prosiect ochr yn ochr â'r cyd-archwilydd Dr Mike Reddy (Cyfrifiaduron), sy'n arbenigwr ar gynllunio gemau, ar ôl iddynt dderbyn cyllid gan yr Ymddiriedolaeth Diogelwch ar y Ffyrdd (RST).

Mae'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu ap addysg rhithwir ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd ar ffurf gêm, fydd yn cael ei brofi ar gyfer 'prawf o gysyniad' mewn ysgolion cynradd yng Nghymru.

Mae nifer o ysgolion yn y DU eisoes yn gweithredu rhaglenni addysg ar ddiogelwch ar y ffyrdd, sy'n defnyddio llyfrau a gemau ar sail gwybodaeth, i addysgu rheolau diogelwch ar y ffyrdd i blant. Er bod hyfforddiant ar ymddygiad ar ochr y ffyrdd yn fwy effeithiol na'r dulliau hyn, nid oes gan lawer o ysgolion yr adnoddau i fynd â phlant i ochr y ffyrdd er mwyn iddynt ddysgu'r sgil ymarferol hwn o groesi'r ffordd.

Nod y prosiect hwn yw datblygu technoleg fydd yn caniatáu i blant ddysgu sgiliau croesi'r ffordd mewn amgylchedd diogel, rhithwir, gan ddarparu dull cost-effeithiol o ymarfer croesi'r ffordd. Os bydd y gêm yn llwyddiannus yn y treialon cynnar hyn, fe wneir cais am gyllid ychwanegol i'w datblygu ymhellach, gyda'r bwriad o'i rhannu yn rhad ac am ddim gydag ysgolion ledled y DU. Bydd cyflwyno'r rhaglen yn ehangach i ysgolion y DU yn golygu cyflwyno'r gêm yn ychwanegol at yr addysg bresennol ar ddiogelwch ar y ffyrdd, yn hytrach na rhywbeth fydd yn ei disodli.

Gallwch ddilyn datblygiad y prosiect drwy ddilyn y Prosiect Ymddiriedolaeth Diogelwch ar y ffyrdd ar Facebook a Twitter (@RSTproject), neu drwy ddilyn eu blog datblygu ar https://rstproject.wordpress.com/.

Calendr Diogelwch ar y Ffyrdd

Mae calendr diogelwch ar y ffyrdd, sydd wedi ei gynllunio i'w ddefnyddio'n bennaf mewn ysgolion, wedi ei gynhyrchu gan Diogelwch Ffyrdd Cymru yn dilyn cais gan nifer o Awdurdodau Lleol.

Meddai Pat Bates, Swyddog Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen: "Dw i'n meddwl bod y calendr diogelwch ar y ffyrdd yn syniad gwych. Rydym yn anfon calendr argraffedig y flwyddyn academaidd at bob ysgol gynradd yn y fwrdeistref, ynghyd â'n cynghorwyr ni gan fod nifer ohonynt hefyd yn llywodraethwyr ysgol, at wleidyddion lleol a phartneriaid allweddol eraill gan gynnwys rhai yn y sector iechyd. Rydym yn dilyn hyn bob mis gyda PDF o'r mis dan sylw. Ac mae gan bob un ei thema ei hun, er mwyn cyflwyno sylw am ddiogelwch ar y ffyrdd bob mis i'r rheini i gyd sydd wedi derbyn y calendr argraffedig a hefyd i gynulleidfa ehangach. Rydym yn gweld bod y cynllun syml hwn yn ennyn llawer o ewyllys da tuag at ddiogelwch ar y ffyrdd am ychydig iawn o gost ariannol.

Yn yr e-bost cychwynnol, rydym yn pwysleisio bod themâu diogelwch ar y ffyrdd i blant yn cynnwys cerdded a beicio, felly mae'r calendr hefyd yn cefnogi'r mentrau ymarferol o ran teithio ac iechyd a llesiant sydd mor gyfredol y dyddiau hyn. Er bod y calendr wedi ei anelu at blant, rydym ni gyd yn gwybod bod diogelwch ar y ffyrdd yn gyfrifoldeb i bob un sy'n defnyddio'r ffordd, boed yn gerddwr, beiciwr, gyrrwr neu rywun sy'n defnyddio unrhyw ffyrdd arall o deithio.."

#WalkSafe

Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod 9 o gerddwyr wedi eu lladd a 62 wedi eu hanafu'n ddifrifol yng Nghymru yn ystod y tair blynedd diwethaf pan oedden nhw o dan ddylanwad alcohol. Trwy gyfrwng ei weithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol, mae RoSPA Cymru yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r risgiau o gerdded pan fyddwch chi dan ddylanwad alcohol. Mae partneriaid RoSPA yn Diogelwch Ffyrdd Cymru a sefydliadau eraill, gan gynnwys colegau, prifysgolion, grwpiau cymunedol a'r sector gwirfoddol, wedi eu gwahodd i rannu'r negeseuon a helpu i dynnu sylw at y broblem hon.

Dywedodd Michelle Harrington, Rheolwr Diogelwch ar y Ffyrdd RoSPA yng Nghymru: "Yn ogystal â thynnu sylw at y risg ychwanegol sy'n ein hwynebu o gerdded pan ein bod o dan ddylanwad alcohol, byddwn yn atgoffa pobl eraill sy'n defnyddio'r ffyrdd nad yw pob cerddwr yn gallu ymddwyn yn ôl y disgwyl, neu yn unol â Rheolau'r Ffordd Fawr. Mae cerddwyr o dan ddylanwad alcohol yn fwy tebygol o wneud camgymeriadau o ran ffurfio barn ac ymddwyn mewn ffordd allai olygu eu bod yn cael damwain ffordd neu'n achosi damwain ffordd."

Mae meddwi yn arwain at wneud penderfyniadau gwael, bod yn llai gwyliadwrus, cymryd mwy o amser i ymateb a meddu ar lai o grybwyll gweledol. Mae atgoffa pobl o hyn yn codi ymwybyddiaeth o ba mor agored i niwed y mae cerddwyr ac yn galw ar ffrindiau i helpu os yw rhywun maen nhw'n ei adnabod angen help i gyrraedd adre'n ddiogel. Gellir cael fersiynau o ansawdd uchel o'r adnoddau drwy gysylltu â RoSPA Cymru.

Sefydlu croesfan ddiogel yn Ystad Ddiwydiannol Trefforest

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi sefydlu man croesi diogel yn Ystad Ddiwydiannol Trefforest diolch i fuddsoddiad sylweddol ar y cyd â Phrifysgol De Cymru (PDC).O ganlyniad i'r prosiect £150,000 yma fe gyflwynwyd croesfan twcan ar y Brif Rodfa (ffordd yr A4054), wedi'i lleoli rhwng cyffyrdd Parc Chwaraeon Prifysgol De Cymru a Heol Powys. Mae'n darparu man croesi diogel i gerddwyr a beicwyr ar y brif ffordd drwy'r ystad ddiwydiannol, gyda Gorsaf Reilffordd Ystad Trefforest gerllaw. Mae signalau traffig newydd i gael eu cyflwyno ar y ffordd, a chafodd y rheiny eu sefydlu gyntaf. Cafodd y goleuadau eu comisiynu ddydd Mawrth, 3ydd Hydref.

"Yn dilyn comisiynu'r goleuadau traffig," meddai'r Cynghorydd Andrew Morgan, Arweinydd Cyngor Rhondda Cynon ac Aelod o'r Cabinet sydd â chyfrifoldeb am Briffyrdd "rydym ni wedi cyflwyno man croesi diogel newydd i gerddwyr a beicwyr. Mae'r Cyngor a Phrifysgol De Cymru wedi buddsoddi £75,000 er mwyn hwyluso'r cynllun yma. Bydd yn gwella diogelwch mewn man prysur sy'n gwasanaethu busnesau lleol, Parc Chwaraeon y Brifysgol, a Gorsaf

Reilffordd Ystad Trefforest. Rydym ni wedi lleoli'r man croesi mewn lle sy'n addas i fyfyrwyr sydd am fanteisio ar y cyfleuster chwaraeon ar ôl iddynt deithio i'r ardal ar y trên.
“Unwaith eto, dyma gynllun sy'n dangos fod y Cyngor yn buddsoddi yn ei Briffyrdd fel blaenoriaeth drwy #BuddsoddiRhCT, er budd preswylwyr Rhondda Cynon Taf a rhai sy'n ymweld hefyd. Fe ddengys hefyd fod y Cyngor yn sicrhau arian pan fo modd er mwyn cynorthwyo gwella'r Rhwydwaith Priffyrdd ehangach.”

Menter Waith ar y Cyd Rhwng yr Heddlu a’r Parameddygon

Cyflwynwyd ffilm fer, yn egluro’r gwaith ar y cyd rhwng yr Heddlu a’r Parameddygon yng nghanolbarth Cymru, yn ddiweddar yng Nghynhadledd TISPOL ym Manceinion.
Mae’r fenter waith ar y cyd, a arweiniwyd gan y Sarjant Owen Dillon o Heddlu Dyfed Powys a Carl Powell o Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, yn paru swyddog heddlu â pharameddyg. Pan gaiff ei alw i ddamwain ffordd, gall y parameddyg roi gwybodaeth i’r Gwasanaeth Ambiwlans ynglŷn â sawl ambiwlans sydd ei angen, rhoi triniaeth ar unwaith i’r clwyfedigion ac mae hyn yn rhyddhau’r swyddog heddlu i reoli’r sefyllfa’n ddiogel.
Cafodd ei ffilmio dros benwythnos Gŵyl y Banc ym mis Mai ac mae'n rhoi blas ar ddiwrnod yn ystod Op Darwen, sy’n ceisio ymrwymo ac addysgu beicwyr modur, gan orfodi pan fydd angen.

Diogelwch ar y Ffyrdd yn Flaenoriaeth i Ysgol Gynradd Derwendeg

Cymerodd disgyblion o Ysgol Gynradd Derwendeg ran mewn digwyddiad diogelwch ar y ffordd yn ddiweddar, yn ogystal â goruchwylio sefydlu ardal 20mya tu allan i’r ysgol. Ymunodd Sean Morgan, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet â Chyfrifoldeb dros Gynaliadwyedd, ag aelodau o Dîm Diogelwch ar y Ffyrdd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, a dyfarnodd dlws i’r dosbarth a deithiodd yn y ffyrdd mwyaf cynaliadwy i’r ysgol. Roedd hi’n gystadleuaeth ffyrnig gyda mwyafrif y plant yn yr ysgol yn dewis cerdded neu feicio, ac roedd 85% o’r plant yn y dosbarth buddugol yn teithio i’r ysgol yn y modd hwn. Bellach, bydd y gystadleuaeth yn cael ei chynnal bob tymor.
Meddai’r Cynghorydd Morgan: “Roeddwn wrth fy modd yn mynychu’r sesiwn diogelwch ar y ffyrdd yn Ysgol Gynradd Derwendeg, lle dangosodd disgyblion eu brwdfrydedd dros deithio cynaliadwy a diogelwch ar y ffyrdd. Da iawn i bawb gymerodd ran. Mae ardal 20mya hefyd wedi ei chyflwyno yn yr ardal o gwmpas Ysgol Gynradd Derwendeg, fydd yn help i sicrhau bod y disgyblion sy’n teithio i’r ysgol ac yn ôl yn ddiogel”.
Meddai Mr Stewart Davies, Pennaeth Ysgol Gynradd Derwendeg: “Mae’r cynllun 20MYA wedi bod yn ychwanegiad ffantastig at y gymuned leol a’r ysgol. Mae wedi caniatáu’r plant i fod yn rhan o bob cam o brosiect ystyrlon, go iawn. Mae elfen trafnidiaeth gynaliadwy'r cynllun wedi sicrhau bod mwy o blant yn teithio i’r ysgol mewn ffyrdd diogel a chynaliadwy. Bydd hyn yn arwain at oblygiadau cadarnhaol yn y dyfodol i bawb dan sylw”.

Hybu cynlluniau diogelwch ffyrdd yng Ngwynedd

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn gweithio efo Clwb Pêl Droed Dinas Bangor er mwyn hyrwyddo dau gynllun gwerthfawr sydd ar gael i drigolion y sir sef “Pass Plus Cymru” a “Byw yn Dda Gyrru’n Dda”.
Nod cynllun “Pass Plus Cymru”, sy’n agored i yrwyr ifanc rhwng 17 a 25 oed ac sydd wedi pasio’u prawf gyrru, ydi sicrhau rhagor o sgiliau a phrofiad gyrru iddynt er mwyn ceisio lleihau’r risg iddynt fod ynghlwm a damweiniau ffyrdd.
Mae’r cynllun “Byw yn Dda Gyrru’n Dda” wedi ei anelu at yrwyr 65+. Mae’n gyfle i unigolion fynd allan gyda hyfforddwr gyrru cymwys yn eu car eu hunain am daith fer, ar ffyrdd cyfarwydd, er mwyn cael awgrymiadau a chyngor am unrhyw fater sydd yn achosi pryder iddynt wrth ddreifio.
Am ragor o wybodaeth, cysylltwch gydag Uned Diogelwch Ffyrdd Cyngor Gwynedd ar 01286 679439 neu 01286 679414.

Miloedd yn cymryd rhan ym mis rhyngwladol cerdded i'r ysgol

Mae ugain ysgol sydd wedi eu lleoli ar draws bwrdeistref sirol Caerffili wedi bod yn cymryd rhan ym mis rhyngwladol cerdded i'r ysgol trwy gydol mis Hydref. Mae bron i 5,000 o ddisgyblion, gyda chefnogaeth Tîm Diogelwch ar y ffyrdd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymgymryd â'r her o gerdded i'r ysgol.

Gan gofleidio'r syniad o deithio mewn ffyrdd heini i'r ysgol, mae'r disgyblion ym mhob un o'r 20 ysgol wedi cofnodi faint o gerdded, beicio a theithio ar sgwter i'r ysgol a wnaed, gan roi gwobrau i'r dosbarthiadau â'r teithiau mwyaf cynaliadwy. Mae'r Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd hefyd wedi penodi disgyblion fel Swyddogion Ifanc Diogelwch ar y Ffyrdd ac maen nhw wedi chwarae rôl hanfodol wrth annog eu cyfoedion i gerdded i'r ysgol drwy gyflwyno gwybodaeth mewn gwasanaethau ysgol.

Meddai'r Cynghorydd Sean Morgan, yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am Gynaliadwyedd: "Mae'r disgyblion bob amser yn awyddus i fod yn rhan o Fis Cenedlaethol Cerdded i'r Ysgol ac yn gwneud eu rhan i helpu'r amgylchedd drwy gyfnewid teithiau car am ffyrdd mwy cynaliadwy o deithio fel beiciau a sgwteri neu gerdded. Rwyf mor fach fod gennym, unwaith eto, 20 ysgol sydd wedi ymrwymo i ymgymryd â'r her a gobeithio y bydd yn troi'n newid parhaol i'r rhai hynny sy'n rhan o'r peth."

Yn ogystal â'r ymdrech arbennig a wnaed i gefnogi'r her fyd eang, mae'r Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd yn parhau i gefnogi datblygu bysiau cerdded, sydd wedi bod yn boblogaidd mewn nifer o ysgolion, gyda dros 20 yn gweithredu ar hyn o bryd. Mae ysgolion wedi adrodd bod llai o draffig a thagfeydd wedi eu hadrodd ers dechrau'r bysiau cerdded a bod y disgyblion sy'n rhan o'r peth yn hollol effro ac yn barod i ddysgu pan maent yn cyrraedd yr ysgol.